Comisiwn
Bevan
Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Rhaglen Arloesi Gofal wedi'i Gynllunio

Compendiwm Rhaglen

#BevanExemplar

Rhaglen Arloesi Gofal a Gynlluniwyd

Gwneud pethau'n wahanol er mwyn adferiad gochelgar, cynaliadwy

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Rhaglen Arloesi Gofal a Gynlluniwyd

Compendiwm o Brosiectau o Gymru

Dr Helen Howson – Cyfarwyddwr Comisiwn Bevan

'Mae wedi bod yn bleser mawr gan Gomisiwn Bevan allu cefnogi'r bobl broffesiynol ymroddedig a brwdfrydig hyn mewn iechyd a gofal gyda'u syniadau arloesol i wella gofal a gynlluniwyd i gleifion ledled Cymru. Mae gennym amrywiaeth gyffrous o brosiectau a fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i ofal cleifion'.

Cyd-destun y Rhaglen

Mewn ymateb i'r heriau brys a gododd adeg y pandemig Covid-19, lansiwyd y Rhaglen Arloesi Gofal a Gynlluniwyd ym mis Ebrill 2022 i gefnogi pobl sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal i roi syniadau arloesol ar waith, ac i fanteisio ar gyfleoedd a ffyrdd o weithio a fydd yn gwella gwasanaethau gofal a gynlluniwyd ledled Cymru.

Dan arweiniad Comisiwn Bevan, melin drafod iechyd a gofal mwyaf blaenllaw Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ehangach, nod y rhaglen oedd ymdrin â rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r broses o ddarparu gwasanaethau gofal a gynlluniwyd yng Nghymru, yn cynnwys gostwng amseroedd aros a gwella mynediad at ofal o safon uchel i gleifion a'u teuluoedd.

I adeiladu ar lwyddiant Rhaglen Enghreifftiol Comisiwn Bevan, dyfarnodd Lywodraeth Cymru arian i gefnogi 17 prosiect ar draws y sector iechyd a gofal yng Nghymru, i ddarparu eu hatebion arloesol ac i weithio tuag at fabwysiadu a lledaenu'r arloesiadau hyn yn genedlaethol.

Mae pob tîm prosiect wedi gweithio'n ddiflino i ddatblygu a phrofi'r ffyrdd newydd o weithio gyda chefnogaeth a hyfforddiant gan Gomisiwn Bevan a rhanddeiliaid allweddol. Mae'r canlyniadau sydd wedi eu disgrifio yn y compendiwm hwn o brosiectau'n cynnwys llai o aros am ofal a gynlluniwyd, gwell mynediad at y gwasanaethau gofal a gynlluniwyd, llai o ddiwrnodau gwely mewn gofal eilaidd, mwy o gapasiti gan y gwasanaeth, gwasanaeth o well ansawdd, gwell gofal i gleifion a mynediad at adnoddau, adborth ac ymgysylltiad cadarnhaol â staff, rhyddhau costau sylweddol ac ad-daliad da ar fuddsoddiad.

Mae nifer o'r prosiectau wedi cael eu mabwysiadu'n lleol oherwydd eu buddion, y mae tystiolaeth ohonynt. Mae cyfle clir i sicrhau'r buddsoddiad gorau drwy fabwysiadu, addasu a lledaenu'r prosiectau hyn ledled Cymru, ynghyd â'r nod o wthio am effaith gadarnhaol a newid hirsefydlog drwy arloesi a gwelliant cynaliadwy.

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Mynegai'r Prosiect

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Emboleiddio'r Rhydwelïau Gliniog (GAE)	Tud 4
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Uwch-ymarferydd Clinigol Cyswllt Cyntaf yng Nghlinig y Dietegydd Gastroentoroleg	Tud 5
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Clinigau Clwstwr Cymunedol Orthopedig Pediatrig	Tud 6
	Cynnal Peilot Endosgopi Capsiwl Colon (CCE) yng Nghymru	Tud 7
	Sefydlu Gwasanaeth POPS mewn Llawdriniaeth Ddewisol	Tud 8
	Cysylltiad Afal: Y Prosiect Cysylltiad	Tud 9
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	Penderfyniadau am Driniaeth ar Sail Tystiolaeth i Glefydau UTI	Tud 10
	Llwybr Cyfathrebu Cymdeithasol Gochelgar mewn Therapi Iaith a Lleferydd	Tud 11
	Llywio Llwybr Radioleg – Cyfeiriad Newydd	Tud 12
	Y Gwasanaeth Gwella Llesiant – WISE	Tud 13
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Dull Cyn-alluogi mewn Llawdriniaeth Ddewisol	Tud 14
	Gofal Cymunedol Integredig Borth	Tud 15
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	Sgrinio Anaf Offthalmig Pigmentog (POLS)	Tud 16
	Gwella Gofal a Gynlluniwyd i'r Bregus yn Ysbyty Treforys	Tud 17
Grŵp Gweithredu Niwrolegol, gyda Chefnogaeth Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Datblygu Gwasanaeth Brysbennu a Chynghori Niwroleg Ranbarthol	Tud 18
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	Radiotherapi Cymru Gyfan ar gyfer Symptomau Canser Datblygedig	Tud 19
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	Tîm Ymateb Brys Pelydr-X (XURT)	Tud 20

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Manylion y Prosiect

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dr Nimit Goyal, Radiolegydd Ymyriadol Ymgynghorol, Dr Rebecca Wallace, Rheolwr Llywio ac Ansawdd Radioleg

Emboleiddio'r Rhydwelïau Gliniog (GAE) – *ymyriad sy'n mewnwthio cyn lleied ag y bod modd i reoli cleifion gydag* osteoarthritis (OA) ysgafn-cymedrol y pen-glin – sefydlu gwasanaeth arloesol newydd

Yr Her

- Mae tua 8.75 miliwn o bobl 45 oed a hŷn (33%) yn y DU wedi ceisio triniaeth am OA
- Y pen-glin yw'r safle mwyaf cyffredin yn y corff i gael OA
- Nid oes opsiynau lleddfu poen tymor hir da ar gael ar gyfer OA ysgafn-cymedrol y pen-glin
- Mae GAE yn weithdrefn radioleg ymyriadol (IR) addawol sy'n amcannu i leddfu'r boen yma

Y Nod

Ymchwilio diogelwch ac effeithiolrwydd GAE ar gyfer poen OA ysgafn – cymedrol yn y pen-glin

Y Dull – Y Tro Cyntaf yng Nghymru





Y Canlyniad/ Buddion

- 21 o achosion wedi eu recriwtio i gael GAE
- 9.9% o foddhad ymysg cleifion
- Pob un wedi gostwng eu sgôr poen VAS wrth ofyn 1 mis yn ddiweddarach
- Diddordeb sylweddol gan y staff orthopaedeg, ffisiotherapyddion AHP a staff bwrdd iechyd arall

Beth Nesaf

- Dylid dilyn y cleifion am 18 mis, cael rhagor o ddata a chwblhau gwerthusiad
- Adolygiad NICE o GAE
- Sefydlwyd IR Gwent fel safle medrus ar gyfer cael GAE
- Cynnig safle triniaeth a hyfforddiant Cymru gyfan yn Ysbyty Athrofaol Y Faenor – sydd wedi ennill dyfarniad 'Safle Penigamp'
- Archwilio ceisiadau am gyflyrau eraill fel llid ar y penelin, ysgwydd wedi cloi, plantar fasciitis

Sganiwch yma i gael rhagor o wybodaeth:

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Uwch-ymarferydd Clinigol Cyswllt Cyntaf yng Nghlinig y Dietegydd Gastroenteroleg

Jeanette Starkey, Dietegydd Gastroenteroleg, Arweinydd Clinigol a Mr T Mathialahan, Ymgynghorydd Gastroenteroleg a Hepatoleg

Yr Her

- Y cyfnod aros am apwyntiadau cyffredin gastroenteroleg - 144 o wythnosau (784 o gleifion)
- Y cyfnod aros am apwyntiadau gastroenteroleg brys - 53 o wythnosau (328 o gleifion)
- 39% o gynnydd mewn atgyfeiriadau
- Ymgynghorwyr gastroenteroleg – 2 gyfwerth ag amser llawn (mae angen 6 Cyf ag ALl), heb allu penodi am 4 blynedd

Yr Amcanion

- Gostwng y rhestr aros gyffredinol am gastroenteroleg drwy frysbennu a dargyfeirio atgyfeiriadau am anhwylderau gyda gweithrediad y coluddyn (disgwylir iddynt gyfrif am 20% o'r rhestr arferol) draw i Glinig y Dietegydd Gastroenteroleg ACP
- Cynyddu capasiti ymgynghorwyr i ymdrin â phobl sy'n aros sydd ag achosion mwy brys
- Darparu llwybr gofal mwy syml, diogel ac effeithlon i gleifion

Y Dull

- Ymgynghorwyr gastroenteroleg yn brysbennu anhwylderau gyda gweithrediad y coluddyn i Glinig y Dietegydd ACP
- Gweld 20 o gleifion newydd a 48 apwyntiad dilynol bob mis yn y clinig

Y Canlyniad/ Buddion

- Tynnu 318 o gleifion oddi ar y rhestr aros am ofal eilaidd
- Rhyddhau 500 o slotiau apwyntiadau gydag ymgynghorydd
- Cynnydd o 14% yng nghapasiti'r clinig gastroenteroleg
- Rhyddhau o leiaf £108,000 o gostau (amser ymgynghorwyr)
- Gostwng yr amser aros am apwyntiadau arferol gweithrediad y coluddyn o 3 blynedd i 4 mis
- Y mwyafrif o'r achosion yn cael eu rheoli gan y dietegydd AC yn unig drwy feddyginIaeth, dull o fyw neu archwiliadau gwirio
- Ymgynghorwyr gastroenteroleg yn cefnogi'r clinigau'n llawn
- 90% o gleifion yn rhoi sgôr 'rhagorol' i'r gwasanaeth, 10% - da iawn

"This is a 5 star team. They work quietly in the background without any fuss … they deserve an award for this work"

"My life has been transformed"

Beth Nesaf

- Rhesymau i ymwreiddio'r gwasanaeth yn lleol
- Hyrwyddo mabwysiadu ehangach
- Cyhoeddi'r canfyddiadau mewn cyfnodolion
- Creu Rhwydwaith Dietegydd Gastroenteroleg ACP
- Creu adnoddau addysgu
- Parhau i weithio gyda meddygon ymgynghorol a nyrsys arbenigol i drawsnewid llwybrau gastroenteroleg i gael budd tebyg

Sganiwch yma i gael mwy o wybodaeth:

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Clinigau Clwstwr Cymunedol Orthopaedeg Pediatrig

Sharon Hortop, Prif Ffisiotherapydd, Orthopaedeg Bediatrig a Chris Dobson, Ffisiotherapydd Orthopaedeg Bediatrig

Yr Her

- Rhestr aros sy'n tyfu a galw cynyddol am wasanaethau orthopaedeg bediatrig (POS) gofal eilaidd
- Y galw'n uwch na'r capasiti
- Diwylliant o or-ddefnyddio triniaeth feddygol yn cynnwys atgyfeirio i gael archwiliadau mewn orthopaedeg bediatrig
- Nifer fawr o atgyfeiriadau anaddas i gael gofal eilaidd gan feddygon teulu

Yr Amcanion

- Gostwng amseroedd aros am wasanaethau orthopaedeg bediatrig, gwella mynediad a phrofiad i gleifion a theuluoedd
- Alinio model Uwch Ymarferydd Ffisiotherapi (APP) gyda GIRFT ac Egwyddorion Gochelgar
- Gostwng tripiau diangen i'r ysbyty a gostwng y gor-ddefnydd o driniaeth feddygol
- Gwella atgyfeiriadau i ofal eilaidd drwy hyfforddiant meddygon teulu
- Gwella hyder ar gyfer hunan-reoli

Y Dull

- Sefydlu Clinigau Clwstwr Orthopaedig Bediatrig APP mewn 2 feddygfa Clwstwr Meddyg Teulu yn BIPCF
- Canfod bylchau yng ngwybodaeth meddygon teulu / eu hanghenion hyfforddi a darparu gweithdai hyfforddi
- Cysylltu â HEIW i gyflwyno hyfforddiant i hyfforddeion newydd meddygon teulu

Y Canlyniad/ Buddion

- Gostwng y rhestr aros ar gyfer gofal eilaidd o arhosiad o 136 wythnos i 77 wythnos, tynnwyd 108 o gleifion oddi ar y rhestr aros
- Gwelwyd 70% o gleifion mewn 0-2 fis
- Nid oedd 90% o'r cleifion yn gofyn am gyfraniad gan yr adran orthopaedeg
- Roedd 69% wedi eu rheoli a'u rhyddhau mewn 1 apwyntiad
- Dim ond 5% oedd angen archwiliadau, wedi eu hatgyfeirio gan APP
- Byddai 100% yn argymell y gwasanaethau i deulu
- Cynnydd o 47% yn hyder y meddygon teulu ar ôl yr hyfforddiant (llun isod)

Beth Nesaf

- Ymwreiddio gwasanaeth yn lleol
- Ehangu rôl yr APP i'r clinig torasgwrn
- Ehangu'r rôl hyfforddi i'r cwricwlwm meddyg teulu a phediatregydd drwy gysylltiad parhaus â HEIW
- Hybu mabwysiadu ehangach

"The service my daughter received, for a persistent knee issue, from the initial GP assessment to the resultant physiotherapy appointment was very fast and efficient (we were seen within two weeks)."

"Useful and practical advice and approach to paediatric MSK presentations. Really helpful mixture of clinical presentations to look out for and examination tips."

Sganiwch yma i gael mwy o wybodaeth:

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Cynnal Peilot Endosgopi Capsiwl Colon (CCE) yng Nghymru

Yr Athro Sunil Dolwani, Athro mewn Gastroenteroleg, Arweinydd Clinigol y Rhaglen Endosgopi Cenedlaethol, Dana Knoyle, Rheolwr Nyrsio ac Arweinydd Llwybrau Clinigol, Naomi Davies, Uwch Reolwr Prosiect, NEP

Yr Her

- Mae colonosgopi'n driniaeth fewnwthiol gyda galw mawr ar y gweithlu ac ar adnoddau
- Mae'r nifer o gleifion a atgyfeirir am golonosgopi yn uwch na'r capasiti, ac yn sylweddol waeth ers y pandemig Covid 19 gyda chanlyniadau sy'n gwaethygu
- Pwysau sylweddol ar y gweithlu ac amrywiaeth amlwg rhwng y byrddau iechyd

Yr Amcanion

- Mae byrddau iechyd cefnogol yn sefydlu gwasanaethau CCE ar gyfer cleifion y bibell gastroberfeddol isaf
- Treialu model cenedlaethol o waith gan adrodd ar draws y byrddau iechyd
- Archwilio'r effaith bosibl ar y pwysau sydd ar y gweithlu
- Gwerthuso model llywodraethu gwybodaeth (IG) Cymru gyfan
- Gwella profiad y claf

Y Dull

- Gwahoddwyd y byrddau iechyd i gyd, ymatebodd 4 yn gadarnhaol - BIPCTM, BIPCAF, BIPBC a BIPBA
- Trefnu meddalwedd, offer a defnyddiau traul i bob bwrdd iechyd
- Hyfforddiant i feddygon ymgynghorol a nyrsys arbenigol
- Ymgysylltiad â gweithgor cenedlaethol
- Y dull cenedlaethol sefydledig a'r prosesau llywodraethu gwybodaeth
- Arolygon cleifion a staff, gwerthusiad gan CEDAR



Llyncu camera pilsen gydag mymryn o ddŵr cyn paratoi'r coluddyn

Tynnu miloedd o ddelweddau

Lawrlwytho delweddau o felt recordio

Arbenigwr yn darllen y delweddau



Y Canlyniad/ Buddion

- Canfod clefyd sylweddol y coluddyn mewn 57% o gleifion
- Potensial dangosadwy y gellir gostwng y galw ar wasanaethau colonosgopi a gostwng y pwysau ar y gweithlu
- Sefydlu gwasanaethau CCE sicr eu hansawdd a llywodraethiant gwybodaeth mewn 4 bwrdd iechyd
- Osgoi / llai o angen am weithdrefn colonosgopi mewnwthiol
- Ymatebion cadarnhaol iawn gan gleifion
- Roedd y staff yn teimlo bod gan CCE rôl mewn gostwng rhestrau aros ac y dylid eu hestyn ledled Cymru

Beth Nesaf

- Cais ar y cyd gyda Lloegr a'r Alban yn NIHR
- Cychwyn datblygu a mabwysiadu technoleg
- Datblygu cronfa broffesiynol amrywiol o arbenigwyr gan ddefnyddio darllennydd o bell ar draws ffiniau
- Ei ymwreiddio fel gwasanaeth cenedlaethol yng Nghymru ar sail tystiolaeth a gasglwyd

Sganiwch yma i gael mwy o wybodaeth:

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Sefydlu Gwasanaeth POPS mewn Llawdriniaeth Ddewisol

Dr Margaret Coakley, Anaesthetydd Ymgynghorol a Dr Nia Humphry, Geriatregydd Ymgynghorol o amgylch Llawndriniaeth

POPS
PERIOPERATIVE CARE OF OLDER PEOPLE UNDERGOING SURGERY

Yr Her

- Ar gyfartaledd, mae'r rhai sydd dros 65 oed yn aros yn yr ysbyty 30% yn hirach yn na'r rhai sy'n iau na 65 oed
- Nid oedd y llwybr cyn-lawdriniaethol safonol yn BIPCAF yn dangos asesiad safonol o ba mor fregus yw'r claf nac yn gwneud penderfyniadau ar y cyd (SDM)
- Oedi yn y llawdriniaethau am fod cleifion yn cael eu cyfeirio yn ôl i ofal sylfaenol ar gyfer atgyfeiriad at arbenigwr

Yr Amcanion

- Sefydlu sgrinio am nodweddion bregus mewn cleifion dros 65 oed – Gwasanaethau Cleifion Allanol o gylch Llawdriniaeth (POPS)
- Cynnig asesiad geriatrig cynhwysfawr cyn llawdriniaeth (CGA) i'r rhai sy'n byw gyda nodweddion bregus
- Gwella sgiliau staff mewn rheoli syndromau geriatrig
- Rhoi gwybod am yr adnoddau sy'n ofynnol i gynnig gwasanaeth cadarn

Y Dull

- Ffynonellau cyfeirio cyfredol: POAC, atal anafiadau cyn iddynt ddigwydd, llawfeddygon ymgynghorol, CNS canser, gofal sylfaenol
- Wroleg, y glust y trwyn a'r gwddf, cleifion yr ên a'r wyneb yn aros am lawdriniaeth gyda CFS o fwy na 5
- Nyrs POPS – asesiad gwybyddiaeth, maethiad, dangos y ffordd, atgyfeiriad 3ydd sector ar gyfer addasiadau – Gofal ac Atgyweirio
- Meddyg POPS – optimeiddio cydforbidrwydd, adolygiad o feddyginiaeth, SDM, cynllunio triniaeth, cyswllt anaesthesia

Y Canlyniad/ Buddion

- Yn gostwng atgyfeiriadau at arbenigwyr a llwyth gwaith meddygon teulu ac anaesthetig
- Nyrs POPS yn gweld 153 o gleifion – 84 ymyriad maeth, 12% yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer Gofal ac Atgyweirio
- Meddyg POPS yn gweld 105 o gleifion – 66 o feddyginiaethau'n cael eu stopio, 43 yn cael eu cychwyn, 153 diagnosis meddygol newydd (y mwyafrif wedi eu rheoli gan y meddyg POPS), 17% heb fynd ymlaen â llawdriniaeth yn dilyn SMD
- Dros 7 mis cyntaf y prosiect, rhoddodd hyn arbedion costau a gyfrifwyd fel £73,324
- Arbediad ailadroddus blynyddol mewn meddyginiaeth yn arbed £41 am bob claf
- Cyfrifwyd mai cost y cyfle yw £10,000/ mis
- Help i osgoi gweithdrefnau amhriodol a difaru'r penderfyniad
- Gwasanaeth cyfannol claf-ganolog

Beth Nesaf

- Ymwreiddio'r gwasanaeth
- Ehangu arbenigeddau llawfeddygol
- Cyfranogaeth ehangach y tîm amlddisgyblaethol
- Mewnbwn wedi'r llawdriniaeth gan geriatregydd
- Cyfranogaeth y claf
- Pecyn cymorth cenedlaethol
- Hyrwyddo mabwysiadu ehangac

"**Clywed y diweddaraf bob tro** am **yr hyn** roedden "nhw" yn ei wneud, a **pham** roedden nhw'n ei wneud. Roedd Attend Anywhere (apwyntiad fideo) yn arbed teithio i Gaerdydd...a chael dirwy arall o £40"

"Dywedwyd yn blwmp ac yn blaen – dim hollti blew. Ces y gwirionedd a **gallwn wneud y dewis roeddwn ei eisiau**."

Sganiwch yma i gael mwy o wybodaeth:

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cysylltiad Afal: Y Prosiect Cysylltiad

Dr Sian Moynihan, Pediatregydd Cymunedol Ymgynghorol

AFAL Connection · Cysylltiad

Yr Her

- Yr argyfwng gordewdra cynyddol mewn plant / pobl ifanc gyda chanlyniadau tymor hir
- Lloegr 2020/2021: Roedd 25.6% o blant 11 oed + yn ordew
- Roedd 1 ymhob 3 o blant yn y rhanbarthau mwyaf difreintiedig
- Roedd y galw yn y gwasanaethau rheoli pwysau plant yn fwy na'r capasiti

Yr Amcanion

- Sefydlu defnyddio synwyryddion gwisgadwy rhyngwynebol sy'n ateb yr IG ac yn dilyn dull MDT cydweithredol
- Sicrhau ei fod yn dderbyniol ei ddefnyddio gyda'r plentyn / person yn ei arddegau a'r gweithwyr proffesiynol
- Canfod a yw'r synhwyrydd gwisgadwy rhyngwynebol yn cefnogi canlyniadau clinigol
- Penderfynu ar ei raddfa, ei gynaliadwyedd a'i fuddion economaidd

Y Dull

- Cytundeb Asesu Effaith Diogelu Data i BIPCAF
- Datblygu proses gynefino ddigidol
- Rhoi cynnig ar y gwasanaeth a gwerthuso'r canlyniadau





Y Canlyniad/ Buddion

- 90% o gleifion yn cymryd rhan am y 13 wythnos gyfan
- 100% o bobl ifanc wedi cynyddu eu cyfrifiad camau ac wedi gostwng eu hamser eistedd
- 90% wedi gwisgo eu Fitbit yn y nos
- Gwell cynnydd tuag at dargedau wedi eu seilio ar gwsg a phlanhigion
- Hawdd gweld a chasglu data
- Gall y rhieni fod yn fydi a chefnogi eu plentyn
- Gostwng y gofyniad am le clinigol, teithio i apwyntiadau ac amser a gollwyd o'r ysgol
- Gwiriad hyblyg, cost isel (£4.40 fesul gwiriad), cymorth wedi ei hysbysu gan ymddygiad dros 13 wythnos
- Rhyddhau cynharach, dim DNA
- Cynnydd mewn capasiti ac amser MDT i achosion newydd

Beth Nesaf

- Gwerthusiad gan CEDAR
- Cynyddu'r cynnig gwasanaeth i garfan fwy o bobl ifanc
- Hyrwyddo mabwysiadu ehangach
- Gellid ymchwilio defnyddio ap rhyngwynebol i oedolion

Sganiwch yma i gael mwy o wybodaeth:

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Penderfyniadau am Driniaeth ar Sail Tystiolaeth i Glefydau UTI

Dr Emma Hayhurst a Dr Jeroen Nieuwland, Llusern Scientific
Alison King, Prif Wyddonydd Biofeddygol, BIPCAF

Llusern Scientific

Yr Her

- **UTI yw'r** math mwyaf cyffredin ond un o haint bacteriol drwy'r byd i gyd
- Clefyd menywod a'r oedrannus yw'r clefyd hwn yn bennaf
- Baich sylweddol ar ofal sylfaenol ac eilaidd
- Allwedd i ymwrthedd gwrthficrobaidd
- Yn gallu achosi cymhlethdodau tymor hir
- Nid yw'n hawdd gwneud diagnosis ohono

Yr Amcanion

- Gwella'r diagnosis a'r driniaeth i UTI
- Dilysu perfformiad y prawf UTI newydd yn y man gofal
- Gwerthuso effaith glinigol bosibl y prawf mewn gofal sylfaenol
- Penderfynu ar lwybr i fabwysiadu'r prawf yn ehangach

Y Dull

- Gwerthuso perfformiad clinigol yn erbyn dull traddodiadol (500 sampl)
- Grwpiau ffocws y defnyddiwr a dangosiadau gyda meddygon teulu
- Ymgysylltu â phatrymau masnachol a dewis y llwybr i'r farchnad



Y Canlyniad/ Buddion

- Sensitifrwydd a phenodolrwydd clinigol da
- Yn well am ganfod gwir heintiau mewn samplau twf cymysg
- Gallai weithio fel prawf diystyru i wella stiwardiaeth wrthfiotig
- Gallai gael effaith mewn lleoliadau gofal sylfaenol, cymunedol, eilaidd ac argyfwng, gan arwain at lai o alw am y gwasanaeth, costau is, gwell canlyniadau i gleifion
- Rhagwelir buddion sylweddol i'r claf

	Sensitivity	Specificity
E. coli (n=168)	85%	89%
Klebsiella spp. (n=67)	82%	91%
Enterococcus spp. (n=55)	93%	89%
Proteus mirabilis* (n=53)	79%	100%
Staphylococcus saprophyticus (n=58)	92%	100%
Pseudomonas aeruginosa* (n=30)	100%	96%

Beth Nesaf

- Marcio UKCA
- Gwerthusiadau yn y byd go iawn
- Cymariaethau â throchbrennau
- Ymgysylltu â gwneuthurwyr polisi
- Llwybr masnachol wedi ei fapio allan
- Sefydlu labordy cynhyrchu yng Nghaerdydd
- Gwerthusiad o berfformiad NIHR annibynnol

Sganiwch yma i gael rhagor o wybodaeth:

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Llwybr Cyfathrebu Cymdeithasol Gochelgar mewn Therapi Iaith a Lleferydd

Natasha Bold, Therapydd Iaith a Lleferydd Arbenigol Uwch

Yr Her

- Atgyfeiriadau cyfathrebu cymdeithasol cyn-fwriadol (y blynyddoedd cynnar iawn) yn cynyddu'n raddol o 2012, gyda chynnydd nodedig o 2020 (gwelwch 'Cyfeiriadau i'r tîm CNS')
- Mae 64% o'r atgyfeiriadau'n rhai cyn-fwriadol
- Mae'r canfyddiadau hyd yn hyn yn awgrymu nad yw plant ifanc sydd ag anawsterau cyfathrebu cymdeithasol cyn-fwriadol yn barod i gychwyn/ ymgysylltu mewn triniaeth – ac eto mae'n cymryd rhan fawr o lwyth achos ac amser clinigwyr i'w hasesu

Yr Amcanion

- Gostwng maint llwythau achos clinigol
- Gostwng hyd y cyfnodau o driniaeth
- Cynyddu boddhad rhieni gyda'r gwasanaeth
- Cynyddu sgiliau a gwybodaeth ymarferwyr blynyddoedd cynnar a rhieni i gefnogi plant
- Cynyddu lles y therapydd a'i foddhad yn ei swydd



Y Dull

- Atgyfeiriadau rhag-fwriadol yn cael eu brysbennu ar gyfer 'Gweithdai Blociau Adeiladu ar gyfer Cyfathrebu'
- Cynnig gweithdai i rieni ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn y GIG a'r awdurdod lleol – rheiny sy'n cefnogi'r plant yn uniongyrchol

Y Canlyniad/ Buddion

- 80 awr i ddarparu mewnbwn traddodiadol i 8 teulu wedi eu gostwng i 16 awr
- Gostwng llwyth achosion clinigol o 18%
- Nid oes angen buddsoddiad – gweithio'n wahanol
- Cynnydd yn hyder a boddhad y rhieni a'r ymarferwyr blynyddoedd cynnar
- Gwell canlyniadau a chymorth i blant nes byddant yn cyrraedd oed lle gallant elwa o driniaeth

Beth Nesaf

- Adnoddau a chanlyniadau'r prosiect i gael eu rhannu gyda chydweithwyr SLT yn genedlaethol
- Hysbysu'r Llwybr Cyfathrebu Cymdeithasol Cymru Gyfan
- Cefnogi mabwysiadu ehangach

"Rwyf hefyd wedi rhoi'r gorau i feio fy hun am oediadau fy mhlentyn a nawr rwy'n gwybod fy mod yn gwneud popeth y gallaf i'w chefnogi. Mae ei chynnydd yn araf a graddol, dyna i gyd! Nawr rwy'n hyderus y bydd fy mhlentyn yn datblygu, ac y bydd yn cyfathrebu mewn amser, yn ei ffordd ei hun. (Rhiant)

Sganiwch yma i gael mwy o wybodaeth:

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Llywio Llwybr Radioleg – Cyfeiriad Newydd

Louisa Edwards, Uwch Ymarferydd Radiograffeg Coluddyn CT, Sarah Maund, Llywiwr Canser Radioleg, Sharon Donovan, Rheolwr yr Adran Radioleg

RADIOLOGY NAVIGATION · RADIOLOGY NAVIGATION · A NEW DIRECTION

Yr Her

- Adferiad ar ôl Covid: Cynnydd mewn galw ac oedi wrth aros am atgyfeiriadau cyffredin a rhai atgyfeiriadau diagnostic brys
- Proses archwilio radiolegol hir yn cynnwys nifer o bobl broffesiynol (5-7 diwrnod)
- Arhosiad rhy hir am lwybr diagnostig 14 diwrnod
- Archwiliadau heb eu cydlynu a gellir eu trefnu wythnosau ar wahân

Yr Amcanion

- Gostwng a symleiddio'r broses archwilio drwy gyflwyno rôl 'Llywiwr' ymroddedig
- Darparu man cyswllt ymroddedig i gleifion a atgyfeirir yn y Llwybr Canser Sengl – gwella profiad y claf
- Gwella cydlyniad yr archebion diagnostig (CT, MRI, uwchsain) ac felly cynyddu'r capasiti i ateb y galw

Y Dull

- Penodi rhywun yn rôl y 'Llywiwr Radioleg' sydd ag awdurdod cynyddol am archwilio ac awdurdodi atgyfeiriadau
- Atgyfeiriadau newydd, archebion a chysylltiadau cleifion wedi eu rheoli gan y rôl ymroddedig
- Un pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau
- Cyfarfodydd Llwybr Canser Sengl gyda phobl yn mynychu i sicrhau'r effeithiolrwydd gorau a chynyddu ymwybyddiaeth o'r rôl

Y Canlyniadau/ Buddion

- Gostwng y broses archwilio o 5 i 2 ddiwrnod
- Gostwng 7 pwynt cyffwrdd i 4
- Gostwng yr arhosiad cyfartalog o'r colonosgopi hyd yr atgyfeiriad canfod graddfa CT o 13 i 4 diwrnod (targed - 10)
- 996 awr o radioleg ac amser rheoli'n cael eu rhyddhau gan y rôl ymroddedig
- Cynyddu'r capasiti sganio CT i 118%, gyda 530 o gleifion ychwanegol yn cael eu sganio yn ystod cyfnod y prosiect
- Gwell profiad i'r claf

Patients often need several types of imaging - CT & MRI - previously had both on separate appts on different days delaying outcomes. (Lower GI Consultant Surgeon)

The service was excellent, totally reassured by the Radiographer which placed me at total ease.

Beth Nesaf

- Cydweithrediad parhaus gyda'r cydweithwyr canser a rhwydweithio i hyrwyddo'r rôl
- Ceisio cyllid i ehangu'r cynnig drwy BIPCAF, i gynnwys 'Cymhorthydd Llywiwr'

Sganiwch yma i gael rhagor o wybodaeth:

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Gwasanaeth Gwella Llesiant - WISE

Dr Liza Thomas-Emrus, Meddyg Teulu sy'n Arweinydd Clinigol, Diddordeb Arbennig mewn Meddyginiaeth Dull o Fyw, Lisa Voyle, WISE, Rheolwr Gweithredol

WISE Wellness Improvement Service

Yr Her

- Mae 1 ymhob 5 o bobl ar un o restrau aros y GIG yng Nghymru
- Mae gan 1 ymhob 3 o bobl gyflwr cronig

Yr Amcanion

- Gostwng y risg y bydd cyflyrau iechyd pobl yn gwaethygu tra byddant ar restrau aros
- Gwella'r rheolaeth ar symptomau a gostwng y galw am ofal a gynlluniwyd
- Cynnwys hunan-reoli yn gadarn o fewn yr arferion pob dydd i wella cyflyrau iechyd
- Gostwng y llif sy'n symud draw i restrau gofal eilaidd

Y Dull

- Hyfforddiant grŵp gan Hyfforddwyr Llesiant, uchafswm o 20 cyfranogwr
- 6 wythnos o sesiynau 2.5 awr, wedi'u dilyn gan sesiynau 1.5 awr pellach weddill yr amser
- Hunan-reoli a grymuso ymhob 'piler' o feddygaeth dull o fyw
- Asesiadau cyn ac ar ôl ymyrraeth i benderfynu ar dargedau a chanlyniadau
- Wyneb yn wyneb neu rithwir
- Celfyddydau ar bresgripsiwn, presgripsiwn cymdeithasol, cyfranogaeth 3ydd sector

Y Canlyniadau/ Buddion

- 95% yn cynyddu eu sgôr gweithgaredd corfforol
- 94% yn gwella pwysedd gwaed
- 80% o ostyngiad mewn pwysau
- 83% wedi gwella mesuriad eu gwasg
- 99% wedi argymell i eraill
- Yn defnyddio strategaethau wedi eu seilio ar dystiolaeth
- Gall unrhyw glaf gael ei atgyfeirio neu gall cleifion hunan-gyfeirio

Beth Nesaf

- Ehangu'r cwmpas i gynnwys iechyd menywod, gofal dementia, canser
- Cynhwysiad digidol – yn cynnwys Bot hyfforddi AI ar gyfer hyfforddiant llesiant digidol a phlatfform hyfforddi ar-lein
- Gwerthuso gwerth cymdeithasol y gwasanaeth
- Dadansoddiad data ar waith – rhaid adrodd arno erbyn mis Hydref
- Gwerthusiad gwasanaeth llawn i gychwyn ym mis Hydref a disgwylir argymhellion erbyn Mawrth 2024

Sganiwch yma i gael rhagor o wybodaeth:

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Dull cyn-alluogi mewn Llawdriniaeth Ddewisol

Hayley Vaughan, Rheolwr y Gwasanaeth Ailalluogi, Daisy Aldridge-White, Cynorthwyydd Therapi Galwedigaetho (OTA), Cyngor Sir Penfro

Cyngor Sir Penfro · Pembrokeshire County Council

Yr Her

- Ar ôl y pandemig – cynnydd sylweddol mewn cyfnodau aros am lawdriniaeth gyda chleifion yn datgyflyru ac yn dod yn llai galluog i fyw'n dda ac yn annibynnol (ymolchi, gwisgo, gwneud prydau bwyd, symudedd gwael)
- HDUHB yn darparu gwasanaeth cyn-alluogi rhithwir, nododd tîm y prosiect y byddai rhai sydd ag anghenion mwy cymhleth yn elwa o wasanaeth wyneb yn wyneb

Yr Amcan

Sefydlu gwasanaeth cyn-alluogi integredig wedi ei seilio yn y gymuned i gefnogi cleifion sy'n aros am lawdriniaeth ddewisol

- Gwella llesiant cyffredinol cyn y llawdriniaeth
- Atal rhagor o ddatgyflyru
- Optimeiddio sgiliau byw annibynnol cyn y llawdriniaeth
- Paratoi cleifion ar gyfer y cyfnod ar ôl y llawdriniaeth
- Galluogi i gleifion fyw'n dda ac yn annibynnol tra byddant yn aros am eu llawdriniaeth
- Gostwng hyd yr arhosiad yn yr ysbyty
- Gostwng yr angen am becynnau gofal tymor hir

Y Dull

- Anfonwyd atgyfeiriadau at dîm prosiect cyn-alluogi Therapi Galwedigaethol Cyngor Sir Penfro
- Meini Prawf – cleifion gydag anghenion mwy cymhleth yn aros am lawdriniaeth ddewisol
- Technegydd Therapi Galwedigaethol yn ymweld â chlaf, yn canfod beth yw'r anghenion, yn darparu cyngor am symudedd, yn dangos y ffordd at adnoddau, yn darparu offer ac yn cael ymweliad arall i asesu'r canlyniad

Y Canlyniadau/ Buddion

- Gwaith mwy integredig gyda gwasanaethau gofal eilaidd, sylfaenol a chymunedol
- Y cleifion yn sôn am fwy o allu corfforol (symudedd) a lles (sgorau cwsg a hwyliau)
- Profodd rôl y Technegydd Therapi Galwedigaethol yn hanfodol i gefnogi'r gwasanaeth a chynyddu capasiti ac effeithiolrwydd

> "Rwy'n teimlo rhyddhad fy mod wedi gweld rhywun wyneb yn wyneb i siarad am y pethau rwyf wedi bod yn poeni amdanynt. Rwyf mor ddiolchgar eich bod wedi sylwi ar y broblem gyda'r lifft grisiau; fel arall, gallai hyn fod wedi achosi gwir drafferth i mi. Rwyf wedi ei chael yn llawer haws symud o gwmpas i fyny'r grisiau ers i chi roi'r ffrâm i fyny yno i mi… mae wedi bod yn hyfryd teimlo bod rhywun yn gwrando arnaf."

Beth Nesaf

- Mae'r prosiect cyn-alluogi wedi ei integreiddio i mewn i'r gwasanaethau oedolion yng Nghyngor Sir Penfro
- Mae'r gwasanaeth ar gael i gleifion sy'n aros am lawdriniaeth ddewisol sydd angen mewnbwn mwy cymhleth

Sganiwch yma i gael mwy o wybodaeth:

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Gofal Cymunedol Integredig Borth

Dr Sue Fish, Partner Meddyg Teulu, Meddygfa Borth, Claire Bryant, Uwch-ymarferydd Nyrsio a Chydlynydd Gofal Clinigol, Jacqui Jones Browne, Rheolwr Practis a Phrosiect

Yr Her

- Nid yw practis cyffredinol wedi ei integreiddio gyda thimau amlddisgyblaethol (MDT)
- Prosesau atgyfeirio biwrocrataidd
- Ychydig iawn o weithio integredig claf-ganolog
- Mae pob rhan o'r system dan bwysau eithriadol ar ôl y pandemig Yr

Amcan

- Trawsnewidiad system gyfan i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymunedol mewn ffordd integredig a chlaf-ganolog drwy waith tîm amlasiantaeth (MAT)
- Cynyddu capasiti'r gwasanaeth drwy well ffyrdd integredig o weithio
- Cynyddu'r defnydd o'r trydydd sector

Y Dull

- Cydlynydd Gofal Clinigol, band 8A wedi eu cyflogi ym Mhractis Borth
- Cymorth gweinyddol
- Sefydlu cylch gorchwyl
- Cyfarfodydd MAT wythnosol, yn para awr, i drafod cleifion sy'n gofrestredig â Meddygfa Borth
- Ei gyflwyno mewn ail bractis ffederasiwn ym mis Ionawr 2023

Y Canlyniadau/ Buddion

- Gostyngiad yn y nifer cyfartalog o apwyntiadau meddygon teulu i gleifion sy'n mynychu'n rheolaidd
- Gostyngiad amlwg yn hyd yr arosiadau yn yr ysbyty (diagram isod)
- Arbedwyd 553 o ddiwrnodau gwely
- Cyfrifo bod rhyddhau adnoddau'n rhoi budd net o £250,000
- Cynnydd mewn atgyfeiriadau i'r trydydd sector
- Yn cyfateb â gostyngiad yng nghyfraddau marwolaethau'r ysbyty

Beth Nesaf

- Y rôl wedi ei hymwreiddio i'r gwasanaeth rheolaidd
- Cefnogi'r raddfa a'i lledaenu i arferion ffederasiwn eraill
- Hybu mabwysiadu ehangach



''Mae'n rhoi tawelwch meddwl i mi o wybod bod cynifer o bobl a gwasanaethau ar gael i mi nad oeddwn yn gwybod amdanynt cyn y cyfarfod''

Sganiwch yma i gael mwy o wybodaeth:

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	Sgrinio Anaf Offthalmig Pigmentog (POLS)

Douglas Neil, Pennaeth Ffotograffeg Feddygol a Richard Waters, Uwch-Ffotograffydd Clinigol, Darluniad Meddygol, Mr Gary Shuttleworth, Offthalmolegydd Ymgynghorol, Ysbyty Singleton

Yr Her

- Mae POLs yn cael eu canfod yn rheolaidd (10-30% mewn oedolion) mewn gofal sylfaenol ac yn amrywio o rai diniwed i rai sy'n bygwth bywyd
- Mae canfod a chael cydnabyddiaeth glinigol brydlon yn allweddol i atal niwed tymor hir
- Gallai'r gwasanaethau arbenigol fod wedi eu gorlethu gan atgyfeiriad yr holl anafiadau pigmentog i dderbyn barn
- Cyfnodau aros pryderus i gleifion am offthalmoleg (rhestr aros o 18-24 mis)

Yr Amcanion

- Prawf o gysyniad o ail ddylunio llwybr atgyfeirio ar gyfer POLS
- Darparu delweddau o ansawdd dda er mwyn brysbennu a chael diagnosis cywir
- Hwyluso canfyddiad a thriniaeth gywir i felanoma offthalmig
- Defnydd effeithiol o gyfres sgiliau'r tîm amlddisgyblaethol
- Gostwng yr amser aros a RTT am offthalmoleg

Y Dull

- Mae arbenigwr offthalmoleg yn graddio ac yn ail gyfeirio atgyfeiriadau addas i'r clinig POLS
- Gwneir ffotograffiaeth ffwndws lliw, sganiau tomograffeg cydlyniad optegol (OCT) ac uwchsain
- Mae'r arbenigwr offthalmoleg yn adolygu'r sganiau ac yn penderfynu a oes angen iddo weld y claf yn y clinig neu a ellir ei ryddhau

Y Canlyniadau/ Buddion

- Rhedodd y gwasanaeth yn llwyddiannus, atgyfeiriwyd a thynnwyd delweddau o fwy na 70 claf
- Gostyngiad yn yr amser a'r pwyntiau cyffwrdd ar gyfer offthalmoleg
- Gostyngiad yn y rhestr aros offthalmoleg a RTT
- Gwasanaeth gyda ffocws ar y claf a gostyngiad yn yr amser i'r claf a phwyntiau cyffwrdd y cleifion
- Gwelwyd yr atgyfeiriadau'n gyflymach drwy Ddarluniadau Meddygol
- Brysbennu cyflym yn gostwng y risg o oedi asesiadau
- Mae'r gwasanaeth yn cyd-fynd â chylch gwaith y ffotograffwyr offthalmig sydd â'r wybodaeth, y profiad a'r gyfres sgiliau sy'n ofynnol i gynhyrchu delweddau o ansawdd dda sy'n ystyrlon yn ddiagnostig.

Beth Nesaf

Archwiliad POLS llawn ar fin cael ei chwblhau

- Profi'r gwasanaeth ymhellach ar garfan ehangach o gleifion a mathau o anafiadau
- Ymestyn y model i wahanol lefelau o ddarpariaeth y gwasanaeth, e.e. wlserau fasgwlar
- Cefnogi byrddau iechyd eraill ledled Cymru i'w mabwysiadu

Diagnostic services are a fundamental aspect of modern healthcare delivery. Clinical pathways can only function properly with sufficient capacity to turnaround diagnostic tests, procedures, and reports in a timely manner. ... improvements in referral to treatment times, impair screening pathway effectiveness, result in poor patient experience, and have the potential to result in harms and poorer outcomes.

Eluned Morgan MS
Minister for Health and Social Services

Sganiwch yma i gael mwy o fanylion:

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Gwella Gofal a Gynlluniwyd i'r Bregus yn Ysbyty Treforys

Dr David Burberry, Geriatregydd Ymgynghorol, Dr Duncan Soppitt, Cymrodor Ymchwil Clinigol, Dr Karina James, Geriatregydd Ymgynghorol a Mr Gregory Taylor, Llawfeddyg Colorefrol Ymgynghorol

Yr Her

- Mae niferoedd cynyddol o gleifion bregus ac oedrannus yn cael eu cyfeirio i gael llawdriniaeth ddewisol gyda chanlyniadau niweidiol
- Marwolaeth o fewn 90 diwrnod mewn cleifion dros 60 oed 4x yn uwch gyda chynnydd yn hyd yr arhosiad yn yr ysbyty
- Mae'r rhestrau aros am lawdriniaeth ddewisol yn aml yn fwy na 5 mlynedd
- Yn aml mae cleifion yn cael eu hatgyfeirio i arbenigeddau llawfeddygol eraill ac yn ymuno â phen y ciw

Yr Amcanion

- Asesu'r galw am wasanaethau geriatrig adeg llawdriniaeth
- Asesu cost a budd y gwasanaeth
- Adnabod offeryn sgrinio y gellir ei ddefnyddio'n electronig i adnabod cleifion a fyddai o fudd o safbwynt geriatrig
- Mapio buddion ychwanegol i wella gofal cleifion
- Datblygu'r gwasanaeth gyda chyfranogaeth ac adborth cadarn y claf

Y Dull

- Anfonwyd holiadur ysgrifenedig at bob un o'r cleifion (9256) dros 65 oed ar y rhestr colesystectomi laparosgopig (LC)
- Cysylltiad ffôn i ganfod y sgôr risg am nodweddion bregus clinigol, y sgôr risg am nodweddion bregus yr ysbyty a'r holiadur CRANE
- Tîm amlddisgyblaethol i drafod i ganfod a fyddai'r claf yn elwa o adolygiad clinigol

Y Canlyniadau / Buddion

- Gostwng y rhestr aros
- 15% o gleifion dros 65 oed wedi eu tynnu oddi ar y rhestr LC
- Tynnwyd 40% o'r cleifion a welwyd yn y clinig hernia oddi ar y rhestr
- Arbedion LC / osgoi costau o £250,000
- Gofal claf-ganolog gydag adborth rhagorol
- Cleifion ar y driniaeth feddygol sydd orau iddynt
- Gostyngiad yn yr atgyfeiriadau arbenigol sengl
- Gostyngiad yn y costau meddyginiaethau
- Yn cefnogi sgrinio rhestr aros. Roedd y 4 carfan lawfeddygol fwyaf - LC, torgest, llawdriniaeth gyffredinol, wroleg - yn rhagweld y byddai costau'n cael eu hosgoi o £632,178 (cleifion dros 65 oed), yn y flwyddyn gyntaf ar ôl y prosiect ac yna arbedion blynyddol rheolaidd ar ôl blwyddyn 1 o £351,334

Beth Nesaf

- Ymestyn i lawdriniaeth gyffredinol, wroleg, fasgwlar
- Gwaith Prosiect Swansea Bay Ways – nodweddion bregus

Sylwadau'r claf

'Ni allaf gael tynnu coden y bustl tra byddaf yn aros am fy nghlun'

'Rydw i'n syrthio am fod fy mhen-glin yn gwrthod dal fy mhwysau drwy'r amser, dydw i ddim wedi clywed am y lawdriniaeth ers blynyddoedd'

'Rydw i wedi rhoi'r gorau i'r rhestr aros'

Sganiwch yma i gael mwy o wybodaeth:

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Grŵp Gweithredu Niwrolegol, gyda Chefnogaeth Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Datblygu Gwasanaeth Brysbennu a Chynghori Niwroleg Rhanbarthol

Michelle Price, Arweinydd AHP, Gofal Person-ganolog, Rhiannon Edwards, Cydlynydd Grŵp Gweithrediad Niwrolegol a Heintiau Prin

Yr Her

- 14.7 miliwn o bobl (1 ymhob 6) gydag anhwylderau niwrolegol yn y DU
- Oedi sylweddol yn y gallu i sicrhau diagnosis
- Mwy o straen ar y claf
- Mwy o alw am y gofal a gynlluniwyd ac gynlluniwyd

Yr Amcanion

- Profiad gwell i'r claf o ddiagnosis niwrolegol mewn gofal sylfaenol
- Mapio'r prosesau atgyfeirio a'r llwybrau o ofal sylfaenol ac adnabod unrhyw fylchau
- Casglu data am yr amseroedd aros cyfredol o ofal sylfaenol i ddiagnosis
- Cynhyrchu Pecyn Cymorth Cur Pen Cymru Gyfan ac adnoddau i feddygon teulu a chleifion i ddarparu gwell cymorth

Y Dull

- Gweithgor Cymru gyfan yn cwrdd yn fisol
- Mewnbwn clinigol gan niwrolegwyr o 3 canolfan drydyddol yng Nghymru
- Ffocws y claf / grwpiau ymgysylltu – beth sy'n bwysig
- Casglu adnoddau Cymru gyfan i hysbysu arferion, gwella mynediad y claf at adnoddau ac ansawdd y gofal
- Creu dangosfwrdd gyda gwybodaeth am restrau aros ledled Cymru ar gyfer niwroleg

A breakdown of attendees by job title:



Y Canlyniadau/ Buddion

- Cyflwyno Pecyn Cymorth a Llwybr Cur Pen i Gymru Gyfan i wneud diagnosis a rheoli achosion o gur pen (rhoi graddfeydd ar lwybr sy'n bodoli eisoes a ddarperir gan BIPBA, y gwelir ei fod yn gostwng atgyfeiriadau i niwroleg o 40%)
- Profi a chyd-gynhyrchu'r Pecyn Cymorth Cur Pen gyda chleifion
- Datblygu cronfa ddata atgyfeirio genedlaethol i hysbysu / gefnogi llwybrau niwrolegol penodol y dyfodol
- Datblygu adnoddau a mynediad at wybodaeth arbenigol i feddygon teulu i'w helpu i wneud penderfyniadau ac atgyfeiriadau i'r adran niwroleg
- Datblygu adnoddau i gleifion wella

Beth Nesaf

- Parhau i werthuso'r defnydd o'r Pecyn Cymorth Cur Pen
- Gweithio gyda rheolwyr gwasanaeth i ddatblygu mecanwaith i gofnodi atgyfeiriadau penodol i mewn i niwroleg i gynnal a gwella'r dangosfwrdd data
- Defnyddio'r dysgu gan gleifion (pwysigrwydd addysg, cyfathrebu, cyd-gynhyrchu a chydlyniad) a data i hysbysu cynlluniau a llifoedd gwaith niwrolegol y dyfodol
- Asesu'r clinig niwrolegol gofal sylfaenol

Sganiwch yma i gael mwy o wybodaeth:

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	Radiotherapi Cymru Gyfan ar gyfer Symptomau Canser Datblygedig

VCC: Dr Mick Button Oncolegydd Ymgynghorol, Steve Hill, Radiograffydd Therapiwtig Arbenigol, BIPBA: Christine Sillman, Radiograffydd Therapiwtig Arbenigol, Nikki Davies, Radiograffydd Therapiwtig Arbenigol, BIPBC: Rebecca Crawford, Radiograffydd Therapiwtig Arbenigol, Pat Evans, Rheolwr y Gwasanaeth



Yr Her

- Maint mawr o waith ymysg timau oncoleg
- Diffygion mewn oncoleg glinigol
- Galw sylweddol gyda RTT byr

Yr Amcanion

- Darparu **gwasanaethau cynaliadwy, effeithlon, o safon uchel** i gleifion sydd angen radiotherapi ar gyfer rheoli canser gyda symptomau brys

Y Dull

- Ar sail gwaith blaenorol i ymestyn rolau radiograffwyr therapiwtig arbenigol i gefnogi llwyth achosion meddygon ymgynghorol mewn cynllunio, rhoi presgripsiwn a chydsynio mewn radiotherapi lliniarol
- Tair canolfan ganser yn cydweithio'n fisol i yrru gwasanaethau clinigol, cefnogaeth a hyfforddiant uwch ymarferwyr
- Cydweithio â Lloegr a Chanada lle mae clinigau AP wedi eu diffinio a'u datblygu'n dda
- Datblygu 'cymuned o arferion' sy'n canolbwyntio ar radiotherapi lliniarol – yn newydd i Gymru (gweledigaeth strategol, cyfleoedd y dyfodol, datblygiadau ymarferol)

Y Canlyniadau/ Buddion

- 7 radiograffydd mewn hyfforddiant AP
- Clinigau AP wythnosol wedi eu harwain gan feddygon ymgynghorol yn BIPBA a VCC
- Arbediad cost o £57/ awr os symudir y gwasanaeth i radiograffydd band 7 (yn gweld 2000 o gleifion bob blwyddyn)
- Boddhad y claf 9.6/10, ffocws cryf ar ofal a phrofiad o safon uchel i'r claf
- Llai o ymweliadau ag ysbytai – gwelir 90% o gleifion mewn 2 ymweliad
- Gostyngiad yn yr ôl-troed carbon a chostau mewn perthynas â theithio
- Triniwyd 72% gydag un sesiwn yn hytrach na'r waelodlin arferol o 42%
- Triniaeth gyflymach – canolradd o 2 ddiwrnod yn hytrach na 7 diwrnod
- Datblygiad gyrfaol a hyfforddiant clinigol o safon uchel
- Arddangosiad Radiotherapi Lliniarol Claf-ganolog i Gymru gyfan ym mis Mai 2023
- Wedi tynnu sylw at faes pwysig o ganser

Beth Nesaf

- Cymuned Ymarferion Tîm Amlddisgyblaethol cenedlaethol i gael ei sefydlu'n fwy ffurfiol gyda sefydliadau partner canser eraill yn eu cefnogi
- Canfod ffordd o ymwreiddio'r newidiadau gweithrediadol
- Gweithio gyda'r academi Advancing Radiotherapy Cymru i ddatblygu rhagor o gyfleoedd

Sganiwch yma i gael mwy o wybodaeth:

Comisiwn Bevan Commission

Planned Care Innovation Programme

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

Tîm Ymateb Brys Pelydr-X (XURT)

Chris Evans, Arweinydd Ymchwil Arloesi a Gwella, James Gough, Pennaeth Gwella Ansawdd, Kylie Davies, Rheolwr Gwella Ansawdd, Ben Scott, Arweinydd Gwelliant

Yr Her

- Cynyddu'r sbiral galw – mae angen cael diagnosteg gymunedol a moddolderau triniaeth
- Amseroedd aros hir am ambiwlans – yn gwaethygu'r cwynion sylfaenol

Yr Amcanion

I benderfynu pa mor ymarferol yw gwasanaeth pelydr X cartref yng Ngogledd Cymru:

- Map a chwmpas y broses
- Deall gofynion cymhwysedd ac anghenion hyfforddi
- Canfod y rheoliadau am ymbelydredd ïoneiddio a'r llwybrau llywodraethiant
- Asesu pa mor addas yw'r offer ac ansawdd y delweddu pelydr x yn y lleoliad cyn-ysbyty

Y Dull

- Adnabod y bwrdd iechyd sy'n cydweithredu - BIPBC
- Partner yn y diwydiant - Fuji – darparu offer
- Cymeradwyaeth radioleg a llywodraethiant gwybodaeth

Y Broses:

- Cleifion addas >8 oed gydag anaf i rannau o'r corff
- SICAT – sgrinio'r pentwr 999
- Parafeddyg a Radiograffydd Adrodd gyda char ymateb brys
- Dyraniad achosion cam 1 (i XURT) – yn unol â meini prawf cynhwysiant ac eithrio
- Cais am belydr X cam 2 (SICAT) – cydymffurfiad ac addasrwydd ôl IR (ME)R
- Adrodd a chyfeirio am belydr X cam 3 - 'adrodd poeth' ac adolygiad SICAT eilaidd

Canlyniadau/ Buddion

- Gwelwyd bod y pelydr x cymunedol symudol yn ymarferol (ond bod angen mwy o ddata)
- Roedd ansawdd y ddelwedd yn dda i rannau o'r corff, fel arall mae'n ddibynnol ar BMI
- Canlyniad chwe ymweliad XURT oedd cyfradd osgoi mynediad o 100% (sampl bach)
- Roedd yr amseroedd aros ar gyfer yr Adran Frys yn 13 awr ar adeg yr astudiaeth (gwnaethpwyd arbedion)
- Roedd boddhad y defnyddiwr terfynol yn uchel (sampl bach)
- Darparwyd gwerth ychwanegol i ymarferwyr a oedd yn cymryd rhan
- Diddordeb rhyngwladol

"Cefais weld y pelydr X a doedd dim angen i mi symud i gar i fynd i Ysbyty. Roeddwn yn teimlo'n fwy cyfforddus ac wedi ymlacio'n llwyr yn "amgylchedd" fy nghartref fy hun." Defnyddiwr gwasanaeth

Beth Nesaf

- Y posibilrwydd o gael dyddiadau peilot pellach yn BIPBC
- Ail brosiect ffurfiol gyda CTM yn arwain – trafodaethau'n barhaus
- Adolygiad cadarn o arbedion effeithiolrwydd tymor hir (drwy'r system gyfan)

Sganiwch yma i gael mwy o wybodaeth: